# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 09.07.10

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W. Tudor Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Ieuan Roberts, Gwilym O. Williams

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ymgeiswyr:**
**Ar ran Bella Take Away:** Mr Talal El-Arab (Ymgeisydd) a Mr R.A. Jones (Cyfreithiwr)

**Ar ran yr Heddlu: :** Arolygydd Manon Owen, Rhingyll Bill Coppack; Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Mr Paul Mayer, Mrs Wendy Mayer, Mr John Martin

**Aelodau Lleol:** Y Cynghorwyr June a Keith Marshall

Croeso
Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i dri o fyfyrwyr o Goleg Prifysgol Bangor sef Osian P. Hughes, Rhian George a Catrin Roberts a oedd ar brofiad gwaith gyda'r Heddlu.

**1. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO BELLA TAKE AWAY, 8 FFORDD CAERGYBI, BANGOR**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais ar ran Bella Take Away, 8 Ffordd Caergybi, Bangor, i wyro trwydded yr eiddo i ganiatau gwerthiant bwyd poeth o 23.00 hyd at 03.00 Dydd Sul i Dydd Iau, a 23.00 hyd at 03.30 Dydd Gwener a Dydd Sadwrn, gyda'r eiddo'n cau 15 munud yn hwyrach. Yn ôl y drwydded gyfredol mae hawl gan yr eiddo i werthu bwyd poeth hyd at 02.30 ac yn cau am 02.45 bob dydd o'r wythnos.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau gan yr Heddlu, e-bost gan un o'r aelodau lleol a llythyrau gan nifer o drigolion cyfagos, i gyd yn datgan gwrthwynebiad i'r oriau ychwanegol. Nid oedd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub unrhyw sylwadau i'w cyflwyno ar y cais. Mewn ymateb i gwestiwn gan yr is-bwyllgor, cadarnhawyd nad oedd Cyngor Dinas Bangor wedi cyflwyno eu sylwadau o fewn yr amser penodedig, ac o ganlyniad heb eu cyflwyno i'r is-bwyllgor.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

ii. Gwahoddwyd yr Ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais;

iii. Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau**.**

iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

vii. Cafodd yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr ac adroddodd y Rhingyll Bill Coppack bod gan yr heddlu bryderon mawr i ymestyn yr oriau. Nododd bod y llefydd "takeaways" ar hyn o bryd ym Mangor Uchaf yn cau yn gynharach na'r mwyafrif o eiddo trwyddedig yn yr ardal. Drwy ganiatau i'r rhain barhau ar agor ar ôl eiddo trwyddedig eraill, byddai'n arwain at gynnydd mewn problemau trosedd ac anhrefn i drigolion. Wrth ganiatau'r oriau ychwanegol byddai'r cwsmeriaid yn yfed alcohol am gyfnod hwy a byddai hynny'n arwain at y posibilrwydd o drosedd ac anhrefn perthnasol i alcohol. Cyflwynodd ystadegau i'r is-bwyllgor yn amlinellu'r galwadau a dderbyniwyd gan yr heddlu yn y cyfnod o 12 mis at y diwrnod blaenorol. Cyfeiriwyd y rhain i ddwy ardal ym Mangor Uchaf, sef Allt Glanrafon a rhan o ardal Ffordd Caergybi. Eglurodd bod yr ardal o amgylch Allt Glanrafon wedi peri 296 o alwadau allan a bod 32.5% ohonynt rhwng 10.00pm a 4.00am. Galwyd hwy allan ddeg gwaith rhwng 2.30am a 4.00am (h.y. y cyfnod perthnasol i'r estyniad oriau) a bod 1.9% o'r rhain wedi arwain at erlyniadau. Golygai hyn bod 50% o'r galwadau ar ôl 2.30am yn arwain at erlyniadau, mewn cymhariaeth â 7.8% ar adegau eraill. Mewn perthynas â'r ail ardal, 'roedd 415 o alwadau, 6.5% ar ôl 2.30am a 2.9% wedi arwain at erlyniadau. Golygai hyn bod y mwyafrif o'r erlyniadau yn codi o ddigwyddiadau rhwng 2.30am a 4.00am. Dyma'r cyfnod y mae'r heddlu mwyaf tebygol o ddarganfod anrhefn oherwydd yr amser y mae pobl wedi bod yn yfed. Credai'r heddlu y byddai'r bobl sy'n gyfrifol am yr anrhefn yn cael eu denu i'r eiddo ar ôl 2.30am.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Y byddai caniatau'r cais hwn yn amharu ar fwynderau'r trigolion lleol yn enwedig yr henoed sy'n byw mewn fflatiau gyferbyn â'r safle. Nodwyd bod llawer o drigolion lleol ynghyd â myfyrwyr yn cael aflonyddwch gan bobl yn gadael tafarndai a chlybiau ac yna mynd ymlaen i brynu bwyd o "takeaways" Pe caniateir yr oriau ychwanegol, byddai'r trigolion yn cael eu cadw'n effro tan 4.00am neu hwyrach. Mae llawer o'r trigolion yn codi'n fore i fynd i'r gwaith, mynd a phlant i'r ysgol neu fynychu darlithoedd yn y Brifysgol.
- Y byddai'n creu mwy o sŵn, ysbwriel ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol cyffredinol gan achosi niwed i ansawdd bywyd trigolion lleol a mwy o broblemau i'r heddlu.
- Y byddai caniatau'r cais hwn yn ychwanegu at y problemau sy'n bodoli eisoes megis cyfogi, bwyd yn cael ei waredu ar y strydoedd a gwydrau'n cael eu malurio ar y stryd.

Hysbysodd un o'r aelodau lleol, sydd hefyd yn aelod o Gyngor Dinas Bangor, bod Cyngor Dinas Bangor yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth gefnogi'r cais ac ymateb i rhai o'r sylwadau uchod, hysbysodd cyfreithiwr ar ran yr ymgeisydd –

- Bod problemau'n bodoli ym Mangor Uchaf ond ei bod yn bwysig i ystyried y gwir ffigurau tu ôl i'r canrannau a gyflwynwyd gan yr heddlu. Wrth edrych ar y gwir ffigurau o'r digwyddiadau, maent yn gymharol isel yn enwedig o'i gymharu â nifer y myfyrwyr sy'n byw yn yr ardal.
- Y byddai ymestyn yr oriau'n cynorthwyo i wasgariad trefnus o gwsmeriaid gan y byddai ganddynt fwy o amser i brynu bwyd ac nid yn ciwio oddi allan i'r eiddo yr un amser. Byddent weithiau'n mynd yn ddig a rhwystredig pan fydd yr eiddo wedi cau, ond yn parhau i aros ar y stryd beth bynnag. Byddai agor yn hwyrach yn gadael lle i'r bobl hyn ac y buasent yn mynd adref yn hapus a distaw.

- Ni ellir priodoli'r problemau sy'n bodoli ym Mangor Uchaf i'r eiddo hwn yn unig. Gan gymryd i sylw natur yr ardal, mae problemau o'r fath yn anochel, ond drwy ganiatau'r cais, ni fyddai'n arwain at gynnydd ac y byddai'n helpu'r sefyllfa.

Gadawodd yr ymgeisydd a'i gyfreithiwr, cynrychiolwyr yr Heddlu, y Rheolwr Trwyddedu, yr aelodau lleol a'r gwrthwynebwyr y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn – datganwyd cryn bryder am y nifer uchel o alwadau i'r heddlu yng nghyffiniau'r eiddo, yn enwedig y rhai yn oriau mân y bore. Byddai hyn yn cynyddu pe byddai'r eiddo ar agor yn hwyrach, gyda phresenoldeb rhai oedd wedi bod yn yfed am amser hir.
- Diogelwch y Cyhoedd – ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o ran diogelwch cyhoeddus
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus – nid oedd neb yn gwadu bodolaeth y problemau yn yr ardal. Credir y byddai caniatau agor yn hwyrach yn gwthio'r broblem ymhellach i oriau mân y bore ac o ganlyniad yn creu mwy o aflonyddwch i drigolion. 'Roedd rhaid ystyried y byddai'r hyn sy'n dderbyniol yn gynharach yn y noson yn cael mwy o effaith ar drigolion ymhellach ymlaen ac o ganlyniad yn dod yn annerbyniol. Felly ni fyddai'r amcan atal niwsans cyhoeddus yn cael ei hyrwyddo drwy ymestyn y drwydded.
- Amddiffyn Plant rhag Niwed – nid oedd unrhyw dystiolaeth dan y pennawd hwn.

**PENDERFYNWYD gwrthod cais Bella Takeaway i wyro'r drwydded bresennol am y rhesymau a nodir uchod.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Gofynnodd y cyfreithiwr ar ran yr ymgeisydd, am ohirio'r ddau gais canlynol oherwydd i un o'r aelodau lleol ddatgan yn ystod y gwrandawiad i'r achos blaenorol bod Cyngor Dinas Bangor yn gwrthwynebu'r ceisiadau. Serch hynny, nid oedd sylwadau Cyngor Dinas Bangor wedi eu cyflwyno i'r is-bwyllgor gan eu bod yn rhy hwyr. Ymneilltuodd yr is-bwyllgor i ystyried hyn fel pwynt rhagarweiniol a phenderfynwyd y buasent yn ystyried y cais. Bydd y datganiad yn cael ei anwybyddu ac ni fydd yn cael ystyriaeth gan yr is-bwyllgor (ac ni chafodd ei grybwyll mewn trafodaethau yn y cais blaenorol). Nid yw'r ffaith bod Cyngor Dinas Bangor wedi gwrthwynebu yn cario dim pwysau gan nad oedd rhesymau am y gwrthwynebiad nac i unrhyw un o'r amcanion trwyddedu.

**2. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO UNIVERSITY PLAICE, 21 FFORDD CAERGYBI, BANGOR**

**Yn bresennol ar ran University Plaice:** Mr Mehmet Ali Usal (Ymgeisydd) a Mr R.A. Jones (Cyfrethiwr)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Fel a nodir yng nghais (1) uchod.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais ar ran University Plaice, 21 Ffordd Caergybi, Bangor, i wyro trwydded yr eiddo i ganiatau gwerthiant bwyd poeth o 23.00 hyd at 03.00 Dydd Sul i Dydd Iau, a 23.00 hyd at 03.30 Dydd Gwener a Dydd Sadwrn, gyda'r eiddo'n cau 15 munud yn hwyrach. Yn ôl y drwydded gyfredol mae hawl gan yr eiddo i werthu bwyd poeth hyd at 02.30 ac yn cau am 02.45 bob dydd o'r wythnos.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau gan yr Heddlu, e-bost gan un o'r aelodau lleol a llythyrau gan nifer o drigolion cyfagos, i gyd yn datgan gwrthwynebiad i'r oriau ychwanegol. Derbyniwyd sylwadau gan y Gwasanaeth Tân ac Achub ond nid oedd

ganddynt wrthwynebiad i'r cais. Nid oedd gan yr Adran Safonau Masnach unrhyw sylwadau i'w cyflwyno ar y cais. 'Roedd Cyngor Dinas Bangor yn rhy hwyr yn ymateb.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

ii Gwahoddwyd yr Ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais;

iii Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau.

iv Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

vii. Cafodd yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr ac adroddodd y Rhingyll Bill Coppack bod gan yr heddlu bryderon mawr i ymestyn yr oriau. Nododd bod y llefydd "takeaways" ar hyn o bryd ym Mangor Uchaf yn cau yn gynharach na'r mwyafrif o eiddo trwyddedig yn yr ardal. Drwy ganiatau i'r rhain barhau ar agor ar ôl eiddo trwyddedig eraill, byddai'n arwain at gynnydd mewn problemau trosedd ac anhrefn i drigolion. Wrth ganiatau'r oriau ychwanegol byddai'r cwsmeriaid yn yfed alcohol am gyfnod hwy a byddai hynny'n arwain at y posibilrwydd o drosedd ac anhrefn perthnasol i alcohol. Cyflwynodd ystadegau i'r is-bwyllgor yn amlinellu'r galwadau a dderbyniwyd gan yr heddlu yn y cyfnod o 12 mis at y diwrnod blaenorol. Cyfeiriwyd y rhain i ddwy ardal ym Mangor Uchaf, sef Allt Glanrafon a rhan o ardal Ffordd Caergybi. Eglurodd bod yr ardal o amgylch Allt Glanrafon wedi peri 296 o alwadau allan a bod 32.5% ohonynt rhwng 10.00pm a 4.00am. Galwyd hwy allan ddeg gwaith rhwng 2.30am a 4.00am (h.y. y cyfnod perthnasol i'r estyniad oriau) a bod 1.9% o'r rhain wedi arwain at erlyniadau. Golygai hyn bod 50% o'r galwadau ar ôl 2.30am yn arwain at erlyniadau, mewn cymhariaeth â 7.8% ar adegau eraill. Mewn perthynas â'r ail ardal, 'roedd 415 o alwadau, 6.5% ar ôl 2.30am a 2.9% wedi arwain at erlyniadau. Golygai hyn bod y mwyafrif o'r erlyniadau yn codi o ddigwyddiadau rhwng 2.30am a 4.00am. Dyma'r cyfnod y mae'r heddlu mwyaf tebygol o ddarganfod anrhefn oherwydd yr amser y mae pobl wedi bod yn yfed. Credai'r heddlu y byddai'r bobl sy'n gyfrifol am yr anrhefn yn cael eu denu i'r eiddo ar ôl 2.30am.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- . Y byddai caniatau'r cais hwn yn amharu ar fwynderau'r trigolion lleol yn enwedig yr henoed sy'n byw mewn fflatiau gyferbyn â'r safle. Nodwyd bod llawer o drigolion lleol ynghyd â myfyrwyr yn cael aflonyddwch gan bobl yn gadael tafarndai a chlybiau ac yna mynd ymlaen i brynu bwyd o "takeaways" Pe caniateir yr oriau ychwanegol, byddai'r trigolion yn cael eu cadw'n effro tan 4.00am neu hwyrach. Mae llawer o'r trigolion yn codi'n fore i fynd i'r gwaith, mynd a phlant i'r ysgol neu fynychu darlithoedd yn y Brifysgol.
- Y byddai'n creu mwy o sŵn, ysbwriel ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol cyffredinol gan achosi niwed i ansawdd bywyd trigolion lleol a mwy o broblemau i'r heddlu.
- Y byddai caniatau'r cais hwn yn ychwanegu at y problemau sy'n bodoli eisoes megis cyfogi, bwyd yn cael ei waredu ar y strydoedd a gwydrau'n cael eu malurio ar y stryd.

Wrth gefnogi'r cais ac ymateb i rhai o'r sylwadau uchod, hysbysodd cyfreithiwr ar ran yr ymgeisydd –

- Bod problemau'n bodoli ym Mangor Uchaf ond ei bod yn bwysig i ystyried y gwir ffigurau tu ôl i'r canrannau a gyflwynwyd gan yr heddlu. Wrth edrych ar y gwir ffigurau o'r digwyddiadau, maent yn gymharol isel yn enwedig o'i gymharu â nifer y myfyrwyr sy'n byw yn yr ardal.
- Y byddai ymestyn yr oriau'n cynorthwyo i wasgariad trefnus o gwsmeriaid gan y byddai ganddynt fwy o amser i brynu bwyd ac nid yn ciwio oddi allan i'r eiddo yr un amser. Byddent weithiau'n mynd yn ddig a rhwystredig pan fydd yr eiddo wedi cau, ond yn parhau i aros ar y stryd beth bynnag. Byddai agor yn hwyrach yn gadael lle i'r bobl hyn ac y buasent yn mynd adref yn hapus a distaw.
- Ni ellir priodoli'r problemau sy'n bodoli ym Mangor Uchaf i'r eiddo hwn yn unig. Gan gymryd i sylw natur yr ardal, mae problemau o'r fath yn anochel, ond drwy ganiatau'r cais, ni fyddai'n arwain at gynnydd ac y byddai'n helpu'r sefyllfa.

Gadawodd yr ymgeisydd a'i gyfreithiwr, cynrychiolwyr yr Heddlu, y Rheolwr Trwyddedu, yr aelodau lleol a'r gwrthwynebwyr y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn – datganwyd cryn bryder am y nifer uchel o alwadau i'r heddlu yng nghyffiniau'r eiddo, yn enwedig y rhai yn oriau mân y bore. Byddai hyn yn cynyddu pe byddai'r eiddo ar agor yn hwyrach, gyda phresenoldeb rhai oedd wedi bod yn yfed am amser hir.
- Diogelwch y Cyhoedd – ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o ran diogelwch cyhoeddus
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus – nid oedd neb yn gwadu bodolaeth y problemau yn yr ardal. Credir y byddai caniatau agor yn hwyrach yn gwthio'r broblem ymhellach i oriau mân y bore ac o ganlyniad yn creu mwy o aflonyddwch i drigolion. 'Roedd rhaid ystyried y byddai'r hyn sy'n dderbyniol yn gynharach yn y noson yn cael mwy o effaith ar drigolion ymhellach ymlaen ac o ganlyniad yn dod yn annerbyniol. Felly ni fyddai'r amcan atal niwsans cyhoeddus yn cael ei hyrwyddo drwy ymestyn y drwydded.
- Amddiffyn Plant rhag Niwed – nid oedd unrhyw dystiolaeth dan y pennawd hwn.

**PENDERFYNWYD gwrthod cais University Plaice i wyro'r drwydded bresennol am y rhesymau a nodir uchod.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 3. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO PIZZA HOUSE, 53 FFORDD CAERGYBI, BANGOR

**Yn bresennol ar ran Pizza House:** Mr Gholam H. Namaghi, Mrs Sarah L. Namaghi (Ymgeiswyr) a Mr R.A. Jones (Cyfrethiwr)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Fel a nodir yng nghais (1) uchod.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais ar ran Pizza House, 53 Ffordd Caergybi, Bangor, i wyro trwydded yr eiddo i ganiatau gwerthiant bwyd poeth o 23.00 hyd at 03.00 Dydd Sul i Dydd Iau, a 23.00 hyd at 03.30 Dydd Gwener a Dydd Sadwrn, gyda'r eiddo'n cau 15 munud yn hwyrach. Yn ôl y drwydded gyfredol mae hawl gan yr eiddo i werthu bwyd poeth hyd at 02.00 ac yn cau am 02.15 bob dydd o'r wythnos.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau gan yr Heddlu, e-bost gan un o'r aelodau lleol a llythyrau gan nifer o drigolion cyfagos, i gyd yn datgan gwrthwynebiad

i'r oriau ychwanegol. Nid oedd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub unrhyw sylwadau i'w cyflwyno ar y cais. 'Roedd Cyngor Dinas Bangor yn rhy hwyr yn ymateb.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

ii Gwahoddwyd yr Ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais;

iii Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau**.**

iv Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

vii. Cafodd yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Ar ran yr ymgeiswyr, gofynnodd eu cyfreithiwr, oherwydd penderfyniad yr is-bwyllgor ar y ddau gais blaenorol, bod ei gleient yn dymuno i'r is-bwyllgor ystyried y cais i fod ar agor tan 02.30 i ddarparu lluniaeth, gyda'r eiddo i gau am 2.45 bob dydd o'r wythnos.

Hysbysodd cynrychiolydd yr Heddlu nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r cais i ymestyn yr oriau i 02.30 a'r eiddo i gau am 02.45 gan y byddai'n gyson ag oriau'r ddau eiddo arall a ystyriwyd gan yr is-bwyllgor. Datganodd yr aelod lleol nad oedd ganddi wrthwynebiad i gais diwygiedig yr ymgeiswyr. Fodd bynnag, 'roedd un o'r gwrthwynebwyr a oedd yn bresennol yn dymuno peidio rhoddi sylwadau ar y diwygiad gan ei fod yn cynrychioli Cymdeithas Bangor Uchaf ac nad oedd gweddill aelodau'r gymdeithas honno yn gwybod am y dwygiad hwn. 'Roedd y gwrthwynebwyr eraill a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn gwrthwynebu'r diwygiad.

Gadawodd yr ymgeiswyr a'u cyfreithiwr, cynrychiolwyr yr Heddlu, y Rheolwr Trwyddedu, yr aelodau lleol a'r gwrthwynebwyr y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn – nid oedd yr Heddlu'n gwrthwynebu'r oriau y gofynnwyd amdanynt. Byddai'n cysoni oriau agor yr eiddo gyda eiddo "takeaway" eraill ym Mangor Uchaf. Ni fyddai ymestyn yr oriau'n creu cynnydd yn achosion o drosedd ac anrhefn.
- Diogelwch y Cyhoedd – nid oedd unrhyw dystiolaeth perthnasol wedi ei gyflwyno o ran diogelwch cyhoeddus
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus – nid oedd neb yn gwadu bodolaeth y problemau yn yr ardal. Nodwyd, serch hynny, bod eiddo cyffelyb eraill ar agor tan yr amser y gofynnwyd amdano. Ni chredir y byddai ymestyn yr oriau yn arwain at gynnydd arwyddocaol o niwsans i'r cyhoedd.
- Amddiffyn Plant rhag Niwed – nid oedd unrhyw dystiolaeth perthnasol dan y pennawd hwn.

Wrth drafod y cais, ystyriwyd bod yr hyn y gofynnodd yr ymgeisydd amdano yn awr yn llai na'r hyn a ofynnwyd yn gyntaf. Cymerwyd i ystyriaeth bod gwrthwynebiadau wedi eu tynnu'n ôl oherwydd y newid hwn, ond nid y cyfan ohonynt. Mewn perthynas â'r sylwadau a dderbyniwyd ac nad oedd y sawl a'i gwnaeth yn bresennol yn y gwrandawiad, daeth yr is-bwyllgor i benderfyniad ar y rhagdybiaeth bod y gwrthwynebiad yn parhau a heb eu tynnu'n ôl.

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro trwydded Pizza House fel a ganlyn –**
**a) Lluniaeth hwyr yn y nos (para. L) – 23.00 i 02.30 Dydd Llun i Ddydd Sul.**
**b) Oriau mae'r eiddo ar agor i'r cyhoedd (para.O) – 23.00 i 02.45 Dydd Llun i Ddydd Sul.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 4. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO MODURDY BERAN, DEINIOLEN

**Yn bresennol ar ran Modurdy Beran:** Mr M. Shuker (Ymgeisydd) a Mr Mike Williams (Cynrychiolydd ar ran yr ymgeisydd)

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru:** Mr David Greene

**Ar ran y gwrthwynebwyr – Cyngor Cymuned Llanddeiniolen:** Y Cynghorydd P.G. Larsen

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais ar ran Modurdy Beran, Deiniolen i wyro trwydded yr eiddo i ganiatau gwerthu alcohol bob awr o'r dydd sef o 00.00 i 00.00. Yn ôl y drwydded gyfredol mae hawl gan yr eiddo i werthu alcohol rhwng 07.00 a 21.30, bob diwrnod o'r wythnos.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau gan y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Adran Safonau Masnach. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais gan yr Heddlu gydag amodau. Derbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- i Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- ii Gwahoddwyd yr Ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais;
- iii Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau.
- iv Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- v Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded
- vi Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.
- vii. Cafodd yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr ac adroddodd Ian Williams, y Cydlynydd Trwyddedu, bod gan yr Heddlu bryderon am drwydded 24 awr ond nid oedd tystiolaeth i wrthwynebu'r cais. Fodd bynnag, yn dilyn cyfarfod gyda'r ymgeisydd, cytunwyd y byddai'r amodau canlynol yn cael eu gosod ar y drwydded pe caniateir –
a) Bydd y drysau i'r eiddo'n cael eu cau i'r cyhoedd am 23.00 gyda'r alcohol wedyn yn cael ei werthu drwy'r agoriad gweini'n unig.
b) Bydd deilydd trwydded bersonol yn yr eiddo trwy gydol yr amser pryd y gwerthir yr alcohol.

c) Bydd teledu cylch cyfyng yn cael ei osod i oruchwylio tu mewn a thu allan i'r eiddo gydag un camera'n benodol i oruchwylio'r agoriad gweini. Dylid cadw recordau TCC am 31 diwrnod a'u rhoddi i'r Heddlu neu unrhyw awdurdod perthnasol, cyfrifol arall ar gais. Os na fyddai'n bosibl cydymffurfio â'r cais ar y pryd, yna dylid mynd â'r darnau perthnasol o ffilm i swyddfa agosaf yr awdurdod hwnnw cyn gynted â byddai hynny'n ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn 48 awr. Cadarnhaodd y byddai deilydd trwydded personol ar yr eiddo pob amser ac y byddai'r ymgeisydd felly'n gorfod sicrhau bod staff hyfforddedig ar gael.

Hysbysodd David Greene o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru y gwnaed archwiliad o drefniadau diogelwch tân yn yr eiddo ar 24 Mai 2010 pryd y canfuwyd llawer o ddiffygion a gorchmynwyd yr ymgeisydd i gario allan waith i wella'r diffygion hyn. Cymerodd y byddai'r ymgeisydd yn cydymffurfio â'r gorchymyn ond nid oedd unrhyw un o'r pwyntiau wedi eu cario allan pan archwiliwyd yr eiddo y diwrnod blaenorol. Mae'r pwyntiau hyn yn berthnasol i'r amcan trwyddedu Atal Niwsans Cyhoeddus oherwydd y perygl i ddiogelwch y cyhoedd a'r staff sy'n gweithio yn yr eiddo.

Cynrychiolwyd Cyngor Cymuned Llanddeiniolen gan y Cynghorydd P.G. Larsen a chadarnhaodd bod y Cyngor yn unfrydol yn erbyn y cais ar y sail -
i) Atal Trosedd ac Anhrefn – byddai ymestyn y drwydded yn denu rhai sydd eisoes wedi bod yn yfed i brynu diod ar ôl i'r tafarndai gau ac efallai gyrru yno yn hwyr yn y nos o dan ddylanwad alcohol. Yn yr un modd byddai'n denu pobl i gerdded yno yn hwyr yn y nos hefyd. Yn gyffredinol 'roedd o'r farn bod cynnydd wedi bod mewn ymddygiad gwrth-gymdeithasol ers i alcohol ddechrau cael ei werthu yn yr eiddo.
ii) Diogelwch Cyhoeddus – byddai cynnydd yn y traffig ar hyd y ffordd yn hwyr yn y nos pe bai i'r drwydded gael ei hymestyn.
iii) Atal Niwsans Cyhoeddus – mae'r ddau bwynt uchod yn berthnasol hefyd i'r pennawd hwn. Holodd hefyd am yr angen i oriau trwyddedu fod yn fwy na'r rhai tafarndai.
iv) Gwarchod Plant rhag Niwed – byddai caniatau trwydded 24 awr yn achosi mwy o ddifrod a dioddefaint i blant a theuluoedd na'r hyn sy'n bodoli'n barod oherwydd problemau alcohol.

Wrth gefnogi'r cais ac ymateb i rhai o'r sylwadau uchod, hysbysodd cynrychiolydd ar ran yr ymgeisydd –

- Mai ei ddymuniad oedd rhoddi gwasanaeth i'r cyhoedd yn yr ardal.
- Bod rhai yn gweithio shifft nos a byddai prynu potel o wîn neu wirod ar eu ffordd gartref yn eu galluogi i ymlacio ar ôl gwaith.
- Y gwerthir pob dim arall am 24 awr yn yr eiddo, felly pam ddim alcohol.
- Ni fyddai pobl oedd yn ymddangos yn feddw yn cael eu gwasanaethu.
- Y byddai'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol ac y byddai gwaith y Gwasanaeth Tân yn cael ei gwblhau cyn agor yr eiddo am 24 awr i werthu alcohol.

Gadawodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd, cynrychiolydd yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub, y Rheolwr Trwyddedu a'r aelod lleol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn – ystyriwyd y ffaith bod gan yr Heddlu bryderon ond dim tystiolaeth i wrthwynebu'r cais yn ffurfiol. Pryderwyd er hynny y byddai agor yr eiddo am 24 awr yn denu pobl ar eu ffordd gartref ar ôl i'r tafarndai gau. Credent y byddai pobl yn mynd yno i brynu alcohol ar ôl bod yn yfed yn barod ac y byddai cynulliad o bobl felly'n achosi problemau yn yr eiddo.
- Diogelwch y Cyhoedd – codwyd pryderon gan y Gwasanaeth Tân, ond derbyniwyd mai mater i Ddeddfwriaeth Diogelwch Tân yw hwn. Serch hynny, datganwyd pryder am beryglon i gwsmeriaid y modurdy o bresenoldeb pobl dan ddylanwad alcohol yn enwedig ym mhresenoldeb traffig

- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus – datganwyd pryder y byddai caniatau'r eiddo i werthu alcohol tan oriau mân y bore yn denu pobl oedd eisoes wedi bod yn yfed ac yn achosi cynnwrf a niwsans i drigolion cyfagos.
- Amddiffyn Plant rhag Niwed – nid oedd unrhyw dystiolaeth dan y pennawd hwn a nodwyd bod yr Heddlu yn cadarnhau bod yr eiddo wedi pasio prawf pryniant.

**PENDERFYNWYD caniatau'r newid canlynol i'r drwydded eiddo -**
**a) Caniatau cyflenwi alcohol o'r eiddo rhwng 06.00 a 23.00.**
**b) Bod deilydd trwydded bersonol i fod yn yr eiddo bob amser pan mae alcohol yn cael ei werthu.**
**c) Bod teledu cylch cyfyng yn cael ei osod i oruchwylio tu mewn a thu allan i'r eiddo gydag un camera'n benodol i oruchwylio'r agoriad gweini. Bydd angen cadw'r ffilm TCC am 31 diwrnod a'u rhoddi i'r Heddlu neu unrhyw awdurdod perthnasol, cyfrifol ar gais. Os nad oes cydymffurfiad bydd y ffilm yn cael ei ddanfon i swyddfa agosaf yr awdurdod cyn gynted â byddai hynny'n ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn 48 awr.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 2.10pm